



GODDEFEBAU – NODIADAU CYFARWYDDYD, MANYLION TALU A GWNEUD CAIS

Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn gwahardd neu'n cyfyngu ar barcio ar briffyrdd cyhoeddus. Mae Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil (SGPS) yn patrolio a gorfodi rheoliadau parcio oddi ar y stryd ac ar y stryd a byddant yn rhoi Hysbysiad Tâl Cosb i gerbydau a welant sydd wedi parcio'n anghyfreithlon, lle bo hynny'n angenrheidiol.

Mae'r Cyngor yn derbyn fod amgylchiadau lle bydd angen i gerbyd barcio mewn lleoliad na fyddai fel arfer yn cael ei ganiatáu. Yn yr amgylchiadau hynny gall y Cyngor roi goddefeb, fodd bynnag, codir tâl am wneud hynny (gweler y manylion talu isod). Nid yw goddefebau wedi'u creu ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gorfod cael mynediad cyson at eu cerbyd, a dim ond pan fydd y Cyngor yn cytuno nad oes unrhyw ddewis arall ar gael y bydd yn eu dosbarthu.

Pan fydd angen goddefeb ar rywun, bydd raid iddynt wneud cais 3 diwrnod gwaith cyn y dyddiad y bydd angen yr oddefeb arnynt er mwyn rhoi digon o amser i'r Cyngor ystyried y cais. Oni bai fod yr amgylchiadau yn rhai eithriadol, dim ond un cerbyd fydd yn cael parcio mewn unrhyw leoliad. Dim ond mewn argyfyngau y bydd goddefebau'n cael eu dosbarthu ar yr un diwrnod.

Ar ôl derbyn goddefeb, dylai'r gyrrwr barcio'r cerbyd mewn modd nad yw'n creu perygl i gerddwyr neu ddefnyddwyr eraill, ni ddylai greu rhwystr sy'n atal pobl rhag gweld yn iawn ar gyffyrdd ac ni ddylai rwystro mynedfeydd nac amharu ar lif traffig. Nid yw goddefeb yn ysgafnhau unrhyw ofyn i gerbydwyd gydymffurfio a gofynion cyfreithiol o dan Reolau'r Ffordd Fawr ar gyfer troseddau traffig.

Gellir dosbarthu goddefebau am sawl rheswm:

- Symud tŷ
- Tynnu a llwytho asbestos
- Cludo deunyddiau / cemegau peryglus i'w defnyddio mewn adeilad
- Trin deunyddiau adeiladu trwm
- Gweithdy symudol (weldio, glanhau ffenestri)
- Lori adeiladwyr sy'n casglu rwbwl
- Gwydrwr sy'n gosod ffenestri
- Lori goncrid yn dosbarthu llwyth o goncrid
- Mynediad parhaus at offer o gerbyd
- Ffilmio

Nid yw hon yn restr lawn a gellir ystyried sefyllfaoedd eraill hefyd.

Bydd y cerbydau canlynol yn derbyn goddefebau fel mater o drefn rhag cyfyngiadau aros:

- Yr Heddlu, Y Gwasanaeth Tân ac Achub (gan gynnwys RNLI a Gwylwyr y Glannau) ac Ambiwlansiau **wrth ymateb i alwadau brys yn unig.**
- Cerbydau sy'n gysylltiedig â chontractau Cynnal a Chadw Priffyrdd neu waith Cyfleustodau Cyhoeddus **os oes angen iddynt barcio ger y safle.**
- Cerbydau lifreio y Cyngor sy'n cyflawni dyletswyddau statudol megis **casglu sbwriel, glanhau strydoedd a chynnal a chadw ochrau ffyrdd.**
- Cerbydau sy'n arddangos bathodynau glas dilys (gweler yr adran briodol ar Yrrwyr/Teithwyr Anabl).

GALL SWYDDOG HEDDLU NEU SGPS OFYN I CHI SYMUD Y CERBYD O UNRHYW LEOLIAD AR UNRHYW ADEG.

TALIADAU

Hyd at 1 diwrnod - £10 y cerbyd.

0 i 7 diwrnod yn olynol - £25.00 y cerbyd.

SUT I WNEUD CAIS

Gofynnwch am ffurflen gais drwy glicio ar y ddolen isod neu drwy gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Parcio ar 01352 704638.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau naill ai drwy'r post neu drwy e-bost at Gyngor Sir y Fflint i'w alluogi i ystyried y cais a dosbarthu'r oddefeb ar ôl hynny (os penderfynir rhoi un i chi):

- **Drwy'r post** – Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Parcio, Adran yr Amgylchedd, Hen Dŷ'r Ysgol Glanrafon, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PA
- **Drwy e-bost (copi wedi'i sganio)** - parkingservices@flintshire.gov.uk

RHAID TALU'R FFŌEDD CYN Y BYDD UNRHYW ODDEFEB YN CAEL EI RHOI I CHI.